**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 23 Mai 2001 |
| **Amser:** | 2.00 i 5.00 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADRODDIAD GWEINIDOG YR AMGYLCHEDD

## DATBLYGU CYNALIADWY

Rydym wrthi'n llunio'n cynnig 'Gweithredu Arloesol' Ewropeaidd terfynol, sy'n cynnwys 3 phrosiect sylweddol yng Nghymru, arsyllfa, a rhwydwaith arfer da Datblygu Cynaliadwy rhyng-ranbarthol (adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym yn ffyddiog y bydd digon o ranbarthau'n bartneriaid ffurfiol er mwyn i'r rhwydwaith fod yn gymwys i dderbyn cyllid Ewropeaidd).

## GWARCHOD YR AMGYLCHEDD

### Cwrdd â Chadeiryddion y Pwyllgorau Amddiffyn rhag Llifogydd

Ar 15 Mawrth bûm yn cwrdd â chadeiryddion y 6 phwyllgor amddiffyn rhag llifogydd lleol yng Nghymru, ynghyd â John Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Rhanbarthol, a chynrychiolwyr Asiantaeth yr Amgylchedd. Cafwyd trafodaeth anffurfiol helaeth ynghylch y ffordd y gellid datblygu cyfrifoldebau llifogydd yn sgil y llifogydd mawr yr hydref diwethaf a'r gwaith adolygu a datblygu sydd ar y gweill.

### Glas Cymru

Cyhoeddwyd ar 11 Mai fod Glas Cymru wedi prynu Dwr Cymru ar ôl llwyddo i godi'r arian bond oedd ei angen arnynt. Yn y cyhoeddiad, cadwodd Glas Cymru at ei addewid blaenorol y byddai ei gynlluniau'n cynnig biliau is i gwsmeriaid ac yn sicrhau bod buddsoddi'n parhau yn ansawdd yr amgylchedd yn yr ardal y mae'n gweithio ynddi.

**Agor Glanfa Goytre**

Ar 14 Mai, drwy wahoddiad Dyfrffyrdd Prydain, agorais yn swyddogol Lanfa Goytre ar ei newydd wedd ar Gamlas Mynwy a Brycheiniog. Er nad oes pwerau wedi'u datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â rheoli Dyfrffyrdd Prydain, mae cryn werth amgylcheddol ac economaidd i ddyfrffyrdd mewndirol Cymru. Maent yn cynnig cyfleoedd hamdden a thwristiaeth deniadol ac mae rôl gynyddol iddynt o ran cyflenwi dwr, atal llifogydd a throsglwyddo nwyddau.

**CEFN GWLAD**

**Cyfyngu defnydd ar beledi plwm**

Y mis yma, cyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori reoliadau drafft i gyfyngu'r defnydd ar beledi plwm yng Nghymru, a fydd yn cyflawni rhwymedigaeth ryngwladol. Bydd y papurau ymgynghori ar gael ar safle'r Cynulliad ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd.

**Cronfa Datblygu'r Amgylchedd – Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol**

Ar 11 Mai, lansiais elfen Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Cronfa Datblygu'r Amgylchedd ym Mae Caswell, yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol y Gwyr. Bydd y Gronfa'n darparu cyfanswm o £750,000 i 5 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymru dros y tair blynedd nesaf i gefnogi prosiectau datblygu cynaliadwy lleol. Rwy'n mawr obeithio y bydd modd i'r Pwyllgor ymweld â rhai o'r prosiectau cyntaf a fydd yn cael cefnogaeth yn ddiweddarach eleni.

**Clwy'r Traed a'r Genau – Mynediad i Gefn Gwlad**

Rhoddais ganllawiau atodol i awdurdodau lleol ar 10 Mai i'w hannog i bennu blaenoriaethau wrth ailagor llwybrau cyhoeddus pwysig a safleoedd eraill – lle gellir gwneud hynny'n ddiogel. Mae rhai datblygiadau positif ar waith yng Nghymru – ond mae angen gwneud mwy os ydym am helpu'r diwydiant twristiaeth a busnesau eraill cefn gwlad. Rwy'n mynd ar drywydd y canllawiau drwy gysylltu'n uniongyrchol â rhai awdurdodau lleol.

**CYNLLUNIO**

**Hawliau Dynol a'r system gynllunio**

Cafwyd sawl her yn y Llysoedd ynghylch y system gynllunio a hawliau dynol. Ym mis Rhagfyr y llynedd cafodd y Llys Adrannol fod rhai o brosesau penderfynu'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Cafodd yr Ysgrifennydd Gwladol ganiatâd i apelio yn erbyn hyn yn Nhy'r Arglwyddi. Yr un yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n fframwaith i'r system gynllunio yng Nghymru ag yn Lloegr. Mae canlyniad yr apêl felly'n arwyddocaol o ran y ffordd y mae'r Cynulliad yn penderfynu mewn achosion cynllunio.

Penderfynodd Ty'r Arglwyddi'n unfrydol ar 9 Mai y dylid cefnogi rôl yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y Deddfau Cynllunio a chafwyd na aethpwyd yn groes i Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Cawsant nad yw cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol dros lunio polisi cynllunio'n anghydnaws â'r cyfrifoldeb dros benderfynu mewn achosion unigol.

Yn sgil y dyfarniad hwn bydd achosion cynllunio'n dal i gael eu trin yn yr un ffordd.

**Prosiect Ymchwil i Fethodolegau Cynllunio Gofodol Cymharol y Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol**

Derbyniwyd yr Adroddiad Terfynol ar Fethodolegau Cynllunio Gofodol Cymharol gan Brifysgol Caerdydd ac ECOTEC Research and Consulting.

Comisiynodd y Cynulliad ymgynghorwyr i roi cyngor ynghylch ffurf a chynnwys y Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol. Mae'r Adroddiad Terfynol ar safleoedd y Cynulliad ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd ac anfonwyd copïau o'r Crynodeb Gweithredol at Aelodau.

Rwy'n gobeithio trefnu Seminar Lledaenu ym mis Mehefin, a fydd hefyd yn pennu'r ffordd ymlaen ar gyfer y Fframwaith.

**TRAFNIDIAETH**

**Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd**

Cynhaliwyd cynhadledd ymgynghori lwyddiannus iawn yn Llandrindod ar 15 Mai. Roedd dros gant o gynrychiolwyr yn bresennol. Mae'r strategaeth ddrafft bellach yn cael ei diwygio er mwyn ystyried y sylwadau a wnaethpwyd yn y gynhadledd. Rwy'n gobeithio'i chyhoeddi yn yr haf er mwyn ymgynghori'n llawn arni ac fe roddaf wybod i'r Pwyllgor beth yw'r diweddaraf ar 11 Gorffennaf.

**Deddf Drafnidiaeth 2000**

Mae proses gychwyn Deddf Drafnidiaeth 2000 yn mynd rhagddi. Ar hyn o bryd mae pob un o

adrannau'r Ddeddf yn Rhannau 2 a 3 sy'n rhoi pwerau i'r Cynulliad a rhai adrannau sy'n rhoi pwerau i Awdurdodau Lleol yn cael eu cychwyn. Bydd Gorchymyn Cychwyn Rhif 1 yn dod i rym yn raddol ar ddyddiadau penodol, y rhan fwyaf ar 1 Awst 2001 a'r gweddill ar 1 Ebrill 2002.

**Newidiadau i SEGs a BELs y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth**

Yn unol â Rheol Sefydlog 19.6 cymeradwyais yn ddiweddar, gyda chytundeb y Gweinidog Cyllid, sawl newid i strwythur, teitlau a chyllid Is-Grwpiau Gwariant (SEG) a Llinellau Gwariant Cyllideb (BEL) y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth. Bwriedir i'r strwythur newydd ddangos yn glir pa weithgareddau sy'n cael eu cynnal ym mhob Llinell Wariant yn y Gyllideb a dangos yn gliriach ac yn fwy tryloyw ar beth y mae'r gyllideb yn cael ei gwario.

Dyma'r diwygiadau:

- Newid teitl y BEL 'Ymchwiliadau Cychwynnol' i 'Astudiaethau' er mwyn rhoi ystyriaeth nid yn unig i waith ymchwilio cychwynnol ar gefnffyrdd ond hefyd nifer yr astudiaethau dichonoldeb a'r astudiaethau monitro a gwerthuso sy'n cael eu cynnal gan y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth fel rhan o'r agenda drafnidiaeth ehangach.

- Creu BEL 'Trwsio ac Uwchraddio' newydd i nodi'n glir lle ceir gwariant cyfalaf i drwsio neu newid rhannau o gefnffyrdd neu wella safon darnau o ffyrdd, h.y. gwaith nad yw'n waith adeiladu newydd nac yn waith cynnal a chadw cyffredin. Bydd y BEL newydd hwn yn cynnwys y categorïau canlynol o waith:

- mesurau lleihau swn
- mesurau atal sgidio
- rhaglen pont lorïau 40 tunnell
- diogelwch lleol a chynlluniau bach
- defnyddio cynlluniau'n well
- trwsio diffygion cynhaliaeth ochr

O greu'r BEL newydd hwn bydd modd cyfyngu'r BEL presennol 'Gwaith adeiladu newydd a gwella' i waith adeiladu gwirioneddol newydd a gwella gallu, h.y. 'gwaith adeiladu newydd', tra bo'r BEL 'Adnewyddu' bellach wedi'i chyfyngu i newid neu ailadeiladu rhannau o'r rhwydwaith sydd wedi gwisgo neu wedi mynd yn hen, h.y. gwaith cynnal a chadw strwythurol cyffredin.

- Newid enw'r BEL 'Cynnal a Chadw' rhyw gymaint i 'Gwaith Cynnal a Chadw Arferol' er mwyn gwahaniaethu rhwng hyn a gwaith adnewyddu.

- Symleiddio'r BEL 'Grant Cyfleusterau Cludo Nwyddau' a'r BEL 'Grantiau IDA' a chreu un BEL 'Grantiau Cyfalaf'.

- Dwyn ynghyd yr holl fesurau sy'n cefnogi trafnidiaeth gyhoeddus drwy gyfuno'r BEL 'Ad-daliad Toll Tanwydd Bysiau' a'r BEL 'Trafnidiaeth Gymunedol' a chreu BEL newydd 'Trafnidiaeth Gyhoeddus – Cefnogaeth Uniongyrchol'. Cyfuno hefyd Grant y Gronfa Partneriaeth Bws a'r Grant Trafnidiaeth Wledig i lunio cynllun newydd Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol.

- Clustnodi tua £1m er mwyn cwblhau'r gwaith o ddarparu croesfannau a rhyngwynebau rhwng rhwydwaith y cefnffyrdd a'r Rhwydwaith Beiciau Cenedlaethol.

Ni fydd angen arian ychwanegol ond er mwyn gwneud y newidiadau fe fydd angen ailddosbarthu rhywfaint ar arian y SEGs a'r BELs unigol. Mae'r newidiadau hyn yn diwygio'r gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 29 Mawrth 2001 a chaiff y Cynulliad wybod amdanynt y tro nesaf y bydd y Gweinidog Cyllid yn trefnu'n ffurfiol i ddiweddaru cyllidebau 2001-2002 ar y System Rheoli Gwybodaeth.

**Cwrdd â Railtrack – 11 Mai 2001**

Bûm yn cwrdd â Phrif Weithredwr Railtrack Steve Marshall a Chyfarwyddwr Ardal Great Western Derek Holmes yr wythnos diwethaf. Gofynnais iddynt ymrwymo i brosiectau isadeiledd yng Nghymru a ariennir gan y Cynulliad – er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau mewn da bryd i gynnig gwasanaethau newydd cyn gynted ag y bo modd.

Fe'm sicrhawyd y byddai adnoddau'n cael eu cadw ar gyfer prosiectau Heol y Frenhines, Bro Taf, Cwm Rhymni a Bro Morgannwg er mwyn eu cwblhau mewn da bryd. Holais hefyd ynghylch ailagor rheilffordd Glyn Ebwy.

Manteisiais ar y cyfle i fynegi pryder ynghylch diogelwch ar y rheilffyrdd, yn arbennig ar groesfannau rheilffordd. Gofynnais pa wersi y gellid eu dysgu er mwyn gallu cynllunio isadeiledd newydd ar gyfer y rheilffyrdd a gwella diogelwch ar groesfannau, megis paratoi arwyddion gwell, rhoi bariau ar groesfannau agored a gosod goleuadau rhybuddio mwy.

**Cynhadledd Trafnidiaeth Integredig y Peirianwyr Sifil – 17 Mai 2001**

Rhoddais anerchiad yng Nghynhadledd Trafnidiaeth Integredig Sefydliad y Peirianwyr Sifil ar 17 Mai yn Neuadd y Sir Caerdydd. Bûm hefyd yn cymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb.

**Sue Essex**

**Gweinidog yr Amgylchedd**